

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 1 o DACHWEDD 2021 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Linda Williams (yn y gadair), Alan Lewis, Aled Williams, Geraint Rosser, Tyssul Evans, Ian Evans, Caroline Williams, Meic Bowen, Margaret Rees a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones, Tracey James a Geoff Hewitt.

2685 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyfeiriwyd at dostrwydd Heddwyn Jones a dymunwyd adferiad buan iddo.

2686 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 04/10/2021 fel rhai cywir.

2687 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2662 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2662- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2662 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2662 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.

Tud 1. Cofnod Rhif 2662 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2662 - Meddygfa'r Sarn, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.

Tud 3. Cofnod Rhif 2681 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2688 Neuadd Pontiets – Adnewyddu Drysau a'r Ffenestri – Penderfynwyd danfon cyfraniad atebol o £2250.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2689 Bethel Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2690 Ebeneser Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2691 Bethel Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2692 CFFI Sir Gar – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2693 Cylch Meithrin Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2694 Parcio wrth y Fferyllfa, Pontiets - Derbyniwyd ymateb oddiwrth yr Heddlu ynglŷn â'r mater. Nodwyd nad oedd pethau wedi gwella. Cysylltir eto gyda'r Heddlu..

2695 Ail-agor Llwybrau Cyhoeddus - Derbyniwyd e-bost ynglŷn â'r mater. Wedi trafodaeth penderfynwyd cyfarfod gyda'r unigolyn.

Ceisiadau Cynllunio

2696

a) Rhif y Cais - PL/02850 –Cwrs Ras Ffoslau,Carwe– Ymestyn Amser – Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2697 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2698 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Hydref.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2699 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :

- a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Hydref)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Hydref)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Hydref)
- ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Hydref)
- d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Hydref)
- dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Hydref)
- e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Hydref) £182.00
- f) Camera I'r Cyfrifiadur - £68.98
- ff) Offer Clyn I'r Cyfrifiadur - £22.50
- g) Ciran Griffiths – Gwaith ym Marc Pontiets - £100.00
- ng) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau - £15.07
- h) Marcus Dinno – Torri Gwair - £50.00

2700 Parc Pontiets

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc at waith ym Mhontiets. Penderfynwyd ein bod yn chwilio am amcan brys i osod Ffens Bren neu Plastic rhwng y Parc a'r Hewl Fawr. Penderfynwyd hefyd ein bod yn parhau i chwilio am grantiau.

2701 Cofeb Rhyfel Pontiets

Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod rhywun wedi bwrw'r postyn gyda Fan neu Lorri a gwneud difrod i'r Gofeb. Penderfynwyd gwneud y gwaith angenrheidiol a chadarnhawyd bod y mater wedi ei nodi i'r Heddlu.

2702 Cylchfan Carwe

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r Cylchfan yng Ngharwe a bod angen ail-baentio'r Ceffylau sydd arno. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

2703 Rhodfa Ceffylau

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â thir ar y safle uchod. Wedi trafodaeth penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i sicrhau perchnogaeth y tir.

2704 Keith Allen

Penderfynwyd danfon llythyr o ddiolch am ei gyngor ynglŷn â gwaith ym Marc Pontiets.

Cyfarfod nesaf:- 6ed Rhagfyr 2021 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....